## Cofnod o benderfyniadau a wnaed gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddydd Llun 16 Hydref 2023

| Rhif Eitem Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 1 | Presenoldeb ac Ymddiheuriadau | Cynghorwyr yn bresennol: Dylan Rees (Cadeirydd); Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd); Bryan Apsley; Marion Bateman; Carol Beard; Adele Davies-Cooke; Jeff Evans; Alan Hughes (gadwodd 11:29); Chris Hughes; John Brynmor Hughes; Gareth R Jones; John Ifan Jones (gadwodd 12:05); Marc Jones (gadawodd 11:46); Gwynfor Owen; Arwyn Herald Roberts; Austin Roberts; Gareth A Roberts; Rondo Roberts (gadawodd am 10:50); Paul Rogers; Gareth Sandilands; Dale Selvester; Rob Triggs; Mark Young.<br><br>Ymddiheuriadau: Cynghorwyr: Tina Claydon; Sharon Doleman; Chrissy Gee; Beverley Parry-Jones; Michelle Walker.<br><br>Cyfranwyr: PST Dawn Docx; DBST Stewart Forshaw; PSTC Helen MacArthur; PSTC Stuart Millington; Dafydd Edwards, Trysorydd; Gareth Owens, Swyddog Monitro; Lisa Allington, Cynorthwyydd Gweithredol; Helen Howard, Pennaeth Cyllid; Tracey Williams, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol; David Tomalin, Archwilio Cymru; Mike Whiteley, Archwilio Cymru; Euros Lake, Archwilio Cymru; Carwyn Rees, Archwilio Cymru. |
| 2 | Datganiadau o Fuddiant | Datganodd y Cynghorydd Mark Young fuddiant personol yn Eitem 15 – Canolfan Hyfforddi Newydd oherwydd ei aelodaeth o Bwyllgor Cynllunio Sir Ddinbych. |
| 3 | Hysbysiad o Faterion Brys | Dim |
| 4 | Cofnodion Cyfarfod yr ATA a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2023 | i) Cymeradwyo cofnodion yr ATA a'r CCB fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd. |

| Rhif Eitem Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 6 | Canlyniadau'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r ddarpariaeth frys | i) nodi'r ystod gynhwysfawr o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus;<br>ii) nodi'r dadansoddiad o'r adborth ar yr ymgynghoriad yn yr adroddiad gan yr ymgynghorydd annibynnol Sarah Barnett Research (Atodiad 1);<br>iii) nodi sylwadau ac awgrymiadau ychwanegol a gafwyd ar gyfer gwneud gwelliannau i ddarpariaeth frys deg a chyfiawn ar draws Gogledd Cymru;<br>iv) nodi bod Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys dan arweiniad yr Aelodau yn argymell bod swyddogion yn parhau i weithio ar amrywiadau i opsiwn 1 ynghyd â'r pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad; a<br>v) chytuno ar argymhelliad gweithgor Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yr Aelodau y dylai'r Awdurdod roi'r gorau i weithio ar opsiynau 2 a 3 yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys ar sail y ffaith bod y cyhoedd wedi eu gwrthod yn glir yn yr adroddiad ymgynghori. |
| 7 | Adroddiad y Cadeirydd | i) nodi'r wybodaeth a roddwyd. |
| 8 | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23;<br>ii) nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2023/24; a<br>iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 31 Hydref 2023. |
| 9 | Datganiad o Gyfrifon Archwiliedig | i) nodi'r perfformiad a'r sefyllfa alldro a archwiliwyd fel y manylir yn Natganiad Cyfrifon 2022/23 (Atodiad 1);<br>ii) nodi adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n cadarnhau barn archwilio ddiamod (Atodiad 2);<br>iii) nodi'r llythyr o gynrychiolaeth arfaethedig; a<br>iv) chymeradwyo Datganiad Cyfrifon terfynol 2022/23 wedi'i archwilio. |
| 10 | Asesiad Perfformiad Blynyddol | i) cymeradwyo'r asesiad blynyddol o berfformiad yr Awdurdod yn 2022/23 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; a<br>ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi fersiwn cryno syml o elfennau allweddol yr adroddiad asesu. |

| Rhif Eitem Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| 11 | Diweddariad Ariannol 2023-24 | i) nodi'r rhagamcanion alldro refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 fel y manylir yn eu cylch yn yr adroddiad;<br>ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwyddiant a materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi;<br>iii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r trafodaethau cyflog sy'n parhau; a<br>iv) chymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi a chronfeydd wrth gefn cyffredinol. |
| 12 | Pennu Cyllideb 2024/25 | i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25;<br>ii) nodi cylch gwaith y gweithgor craffu ar y gyllideb a sefydlwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r amserlen adrodd arfaethedig;<br>iii) nodi'r cynnig i ddarparu amcangyfrifon cyllideb cychwynnol i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2022; a<br>iv) nodi'r cynnig i geisio cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer cyllideb refeniw 2024/25 yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024. |
| 13 | Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Ebrill-Mehefin 2023-24 | i) cymeradwyo gweithgarwch rheoli'r trysorlys; a<br>ii) chymeradwyo'r dangosyddion darbodus ar gyfer chwarter 1 2023/24. |
| 14a | Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru – Gwahaniaethu ar sail Oed | i) nodi'r gofynion deddfwriaethol a'r amserlenni a sefydlwyd gan y rheoliadau; a<br>ii) nodi'r gwaith a wnaed i weithredu'r rheoliadau. |
| 14b | Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru – Hawl Pensiwn i Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad | i) nodi cefndir y mater cyfreithiol; a<br>ii) nodi'r cynigion a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion cyfreithiol sy'n codi. |
| 15 | Prynu Tir ar gyfer Canolfan Hyfforddi Newydd | i) nodi cefndir yr adolygiad o gyfleusterau hyfforddi tân ac achub yng Ngogledd Cymru;<br>ii) nodi bod y ddarpariaeth cyfleusterau hyfforddi presennol yn cyrraedd diwedd ei hoes;<br>iii) cymeradwyo prynu tir yn Llanelwy, Sir Ddinbych, yr aseswyd ei fod yn addas ar gyfer adeiladu canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngogledd Cymru; a |

| Rhif Eitem Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| | | iv) chymeradwyo dechrau gwaith lliniaru mewn perthynas â madfallod dŵr i sicrhau bod y safle'n barod ar gyfer adeiladu arno o fis Rhagfyr 2024. Byddai hyn yn amodol ar graffu a chymeradwyaeth yr Aelodau; |
| 16 | Adolygu Larymau Tân Awtomatig | i) nodi cynnwys adroddiad lleihau Larymau Tân Diangen Archwilio Cymru. |